**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a
Thrafnidiaeth

8 Hydref 2018

Annwyl Ken

**Craffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnach**

Diolch eto am ddarparu tystiolaeth ar 12 Chwefror i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol mewn perthynas â Bil Masnach Llywodraeth y DU. Fe wnaeth eich tystiolaeth ein cynorthwyo i ddatblygu ein **hadroddiad** ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach.

Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaethom gadarnhau ein bwriad i adrodd ar wahân ar y gwaith o graffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnach. Rydym wedi bod yn monitro cynnydd y Bil Masnach drwy Senedd y DU a, chyn y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, rydym bellach wedi cwblhau'r adroddiad ar wahân hwnnw.

Mae'n bleser gen i atodi ein Hadroddiad ar y Craffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnach. Gosodwyd yr adroddiad yn y Cynulliad y prynhawn yma.

Rwyf wedi ysgrifennu ar wahân at George Hollingbery AS, y Gweinidog dros Bolisi Masnach, y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, Canghellor Caerhirfryn a'r Gweinidog Gwladol.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei gopïo i'r Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a Russell George AC, Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.